## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **30 Mawrth 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | Y diweddaraf am Ffrydiau Gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi adborth am waith y ffrydiau gwaith** |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | |

**CEFNDIR:**

Ar 11 Hydref 2012, sefydlodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu bedair ffrwd waith fel rhan o broses gynllunio'r flaenraglen gwaith. Bwriad y ffrydiau gwaith hyn oedd codi ymwybyddiaeth o amrywiol feysydd, darparu hyfforddiant, archwilio pynciau yn fanylach a nodi agweddau yr oedd angen craffu arnynt ymhellach. Cafodd y ffrydiau gwaith eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod 2022. Mae aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu wedi'u rhannu rhwng y ffrydiau gwaith ac mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynd i bob un o'r tair ffrwd waith gan gyfrannu atynt.

| **Sicrhau bod y blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.** | **Sicrhau tegwch i bob disgybl** | **Sicrhau seilwaith effeithiol ac effeithlon i fodloni ein blaenoriaethau.** |
|---|---|---|
| Y Cynghorwyr:<br>Endaf Edwards<br>Chris James<br>Euros Davies<br>Rhodri Davies<br>Elizabeth Evans | Y Cynghorwyr:<br>Endaf Edwards<br>Chris James<br>Paul Hinge<br>Marc Davies<br>Amanda Edwards<br>Mark Strong<br>Ann Bowen Morgan | Y Cynghorwyr:<br>Endaf Edwards<br>Chris James<br>Meirion Davies<br>Eryl Evans<br>Gareth Lloyd |

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Sicrhau tegwch i bob disgybl**

Cyfarfu'r ffrwd waith 'Sicrhau tegwch i bob disgybl' ar 2 Rhagfyr 2023 i ystyried Presenoldeb ac Addysg Ddewisol yn y Cartref. Rhoddodd Gillian Evans, Rheolwr Corfforaethol - ADY, Cynhwysiant a Llesiant a Catrin Petche, Arweinydd Tîm Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg gyflwyniad i'r ffrwd waith. Esboniwyd y cefndir cyfreithiol i'r Aelodau. Rhoddwyd sylw i nifer y plant a oedd yn cael eu haddysgu gartref, gan gynnwys y nifer nad oedd erioed wedi mynychu ysgolion prif ffrwd. Cafodd yr Aelodau wybod bod cynnydd o tua 10% wedi bod yn nifer y plant a oedd yn cael eu haddysgu gartref ar draws Cymru (36% oedd y ffigwr y llynedd). Yng Ngheredigion, roedd nifer y plant a oedd yn derbyn addysg gartref wedi gostwng 6%. Ceredigion oedd â'r gyfradd uchaf o blith holl siroedd Cymru o blant a oedd yn cael eu haddysgu gartref, gyda 28.2 fesul 1,000 o ddisgyblion (30.6 fesul 1,000 oedd y ffigwr y llynedd). Dywedwyd bod canran y plant yng Ngheredigion nad oedd erioed wedi bod ar gofrestr ysgol yn uwch na'r ganran ledled Cymru. Nid oedd 38% o blant yng Ngheredigion erioed wedi bod i'r ysgol o gymharu â ffigwr o 15% yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn, roedd Ceredigion wedi ymweld â 63% o blant a oedd yn cael eu haddysgu gartref - 34% oedd y ffigwr yng Nghymru. Roedd 61 o ddisgyblion yng Ngheredigion wedi dychwelyd yn ôl i'r ysgol yn y 12 mis blaenorol (27 oedd y ffigwr y flwyddyn flaenorol).

Cafodd enghreifftiau o'r modd yr oedd Grant Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio dros y tair blynedd diwethaf eu rhannu â'r ffrwd waith. Esboniwyd dyletswyddau'r Ysgol a'r Awdurdod Lleol. Dywedwyd bod yr angen i ddiogelu pob plentyn a sicrhau eu lles yn flaenoriaeth i bawb a bod dim gwahaniaeth a oedd y plentyn yn yr ysgol neu'n cael ei addysgu gartref. Pwysleisiwyd bod diogelu plant yn gyfrifoldeb ar bawb. Roedd cysylltiadau cryf a chlir yn bodoli rhwng y Gwasanaethau Plant, y Gwasanaethau Ysgolion a'r Person Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant e.e. pan ddaw hysbysiad i law drwy "Operation Encompass", neu os daw atgyfeiriad MARF (Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol) i law oddi wrth y Gwasanaeth Plant, bydd yna drafodaethau rhwng y gwahanol dimau a chytundeb ynghylch pwy sy'n gwneud beth a'r modd y byddwn ni'n gweithredu.

Rhoddwyd esboniad i'r ffrwd waith am y broses o ran Gorchmynion Mynychu'r Ysgol. Roedd y rhain yn berthnasol mewn achosion lle nad oedd rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol yn medru profi bod y plentyn yn derbyn addysg addas a bod yr awdurdod yn credu y dylai'r plentyn fynychu'r ysgol.

**<u>Sicrhau bod y blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.</u>**

Cyfarfu'r ffrwd waith 'Sicrhau bod y blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni'n effeithiol' ar 1 Chwefror 2023. Bu'r ffrwd waith ar ymweliad â dwy ysgol gynradd yn y sir. Treuliodd y ffrwd waith y bore yn Ysgol Plascrug, Aberystwyth. Yn ystod yr ymweliad, rhoddodd Aled Rumble anerchiad am y Cyflwyniad i'r Cwricwlwm i Gymru. Ar ôl hynny, cafwyd cyflwyniad gan y Pennaeth, Berian Lewis ynglŷn â'r daith yr oedd yr ysgol wedi bod arni o ran mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru. Hefyd, aethpwyd ag aelodau'r ffrwd waith ar daith o amgylch yr ysgol, gan ymweld â dosbarth ym mhob blwyddyn, o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 lle cawsant y cyfle i arsylwi'r gwersi ac i siarad â'r athrawon a'r disgyblion. Yna, cafodd yr Aelodau'r cyfle i drafod yr hyn yr oedden nhw wedi ei weld ac i ofyn rhagor o gwestiynau i'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth.

Yn ystod y prynhawn, ymwelodd y ffrwd waith ag Ysgol Bro Sion Cwilt. Rhoddodd y Pennaeth, Nia Thomas, gyflwyniad iddynt am y daith yr oedd yr ysgol wedi bod arni wrth fabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru. Aethpwyd ag aelodau'r ffrwd waith ar daith o amgylch yr ysgol, gan ymweld â phob dosbarth, o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6, lle cawsant y cyfle i arsylwi'r gwersi ac i siarad â'r athrawon a'r disgyblion. Yna, cafodd yr Aelodau'r cyfle i drafod yr hyn yr oedden nhw wedi ei weld ac i ofyn rhagor o gwestiynau i'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth.

Roedd Aelodau'r ffrwd waith yn ddiolchgar am y cyfle i ymweld ag Ysgol Plascrug ac Ysgol Bro Sion Cwilt lle cawsant gipolwg ar y ddwy ysgol a'r daith yr oeddent wedi bod arni wrth fynd ati i fabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd ar hyd y ffordd. Ymhlith y prif bwyntiau a nodwyd oedd y canlynol:

- Roedd y cwricwlwm yn annog yr ysgolion i gwestiynu'r hyn yr oeddent yn ei wneud.
- Roedd y cwricwlwm yn adeiladu ar yr arferion da a oedd eisoes yn bodoli.
- Roedd y cwricwlwm yn caniatáu i'r ysgolion ganolbwyntio ar y plentyn unigol.
- Roedd pwysigrwydd llais y disgybl yn cael ei amlygu.
- Roedd yr ysgolion yn ddiolchgar am y gefnogaeth yr oedd swyddogion y Cyngor yn ei rhoi.
- Roedd y cwricwlwm yn rhoi'r rhyddid i'r athrawon ddod i adnabod eu plant.
- Roedd y cwricwlwm yn caniatáu hyblygrwydd.
- Roedd y cwricwlwm yn cynnig gwell cyfleoedd i'r unigolyn gan eu paratoi nhw ar gyfer bywyd.

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os 'nac oes', nodwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** |

**ARGYMHELLIAD:**

Nodi gwaith y ffrydiau gwaith

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 17/2/23 |
| **Acronymau:** | |